**ATODIAD 1**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU (2024-25)

Craffu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad yma, neu am broses graffu CBSRhCT, e-bostiwch: craffu@rctcbc.gov.uk

## Rhagair y Cadeirydd



Croeso i Adroddiad Craffu Blynyddol Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2024-25.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yma'n adlewyrchu’r ystod eang o bynciau a archwiliwyd gan ein Pwyllgorau Craffu yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2024-25.

Hoffwn i ddiolch i aelodau ac aelodau cyfetholedig ein holl Bwyllgorau Craffu am eu hymrwymiad a'u gwaith caled. Gyda'i gilydd, maen nhw'n cynnal gwaith 'gwirio a herio' ar ran y sawl sy'n gwneud penderfyniadau gyda'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ein trigolion lleol. Hoffwn i ddiolch hefyd i swyddogion y Cyngor, Aelodau o'r Adain Weithredol a'r partneriaid sydd wedi ymgysylltu â'n Pwyllgorau Craffu dros y flwyddyn ddiwethaf ac sydd wedi rhannu eu profiadau, eu cyngor a'u harbenigedd.

Mae'r cyd-destun o ran gwaith y Pwyllgorau Craffu wedi bod yn heriol ac mae'n dangos sut mae heriau ariannol a'r galw cynyddol am wasanaethau yn parhau i gyflwyno heriau i'n sefydliadau ni a sefydliadau partner. Yn rhan o'n gwaith ni, rydyn ni wedi mynd ati i archwilio rhai dewisiadau anodd iawn ar gyfer ein darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, rydyn ni hefyd wedi gweld enghreifftiau o gyd-gynhyrchu gwasanaethau arloesol a threfniadau gweithio mewn partneriaeth effeithiol. Mae'r Pwyllgorau Craffu hefyd wedi cael cyfle i gefnogi gwaith gwella gwasanaethau ac yn rhan o'n gwaith, rydyn ni'n cydnabod bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i wynebu heriau’r dyfodol yn y tymor byr, tymor canolig a thymor hwy.

Yn ystod y cyfnod heriol yma, mae'r Pwyllgorau Craffu yn RhCT wedi cynnal mwy o waith 'rhag-graffu', sy'n rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgorau Craffu ychwanegu'r gwerth mwyaf a dylanwadu ar newid cadarnhaol. Bydd parhau i nodi a gwerthfawrogi mewnbwn y Pwyllgorau Craffu yn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau gwell.

Rwy'n hyderus bod yr adroddiad yma unwaith eto'n cynrychioli ac yn arddangos y gwaith craffu a her cadarn y mae'r holl Aelodau Etholedig wedi'u darparu, ac felly'n adlewyrchu pwysigrwydd ein swyddogaethau craffu.

Y Cynghorydd J. Edwards

Cadeirydd

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **Prif Nodau'r Pwyllgorau Craffu** | **4** |
| **Cynllunio Rhaglenni Gwaith** | **4** |
| **Cyfranogiad y Cyhoedd ac Ymgysylltu** | **6** |
| **Sut rydyn ni'n cynnwys ein rhanddeiliaid a'n dinasyddion** | **7** |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | **8** |
| **Datblygu Dulliau Craffu Effeithiol / Rhaglen Datblygu Aelodau** | **8** |
| **Ymchwil a Chraffu** | **9** |
| **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 (2024-25)** | **11-14** |
| **Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant (2024-25)**<br><br>○ **Gweithgor Craffu: Addysg a Chynhwysiant - Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** | **15-19** |
| **Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned (2024-25)**<br><br>○ **Trosedd ac Anhrefn** | **20-26** |
| **Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant (2024-25)** | **27-30** |
| **Meysydd i'w trafod yn 2025/26** | **31** |
| **Y Garfan Graffu** | **31-32** |

**Prif Nodau'r Pwyllgorau Craffu**

Mae craffu yn RhCT yn adnodd allweddol wrth fynd ati i hyrwyddo buddiannau a lles gorau trigolion RhCT ac mae'n ceisio sicrhau bod pobl leol yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion.

**Beth yw Craffu?**

Nod y Pwyllgorau Craffu yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a pholisïau yn diwallu anghenion trigolion RhCT yn y ffordd orau bosibl. Mae craffu yn gweithredu fel adnodd 'gwirio a chydbwyso' y mae modd i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, sef Adain Weithredol y Cyngor (y Cabinet), fanteisio arno drwy:

- Cyfrannu at adolygu a datblygu polisïau;
- Dwyn Cabinet y Cyngor i gyfrif am eu penderfyniadau a'u cyflawniad;
- Ymchwilio i faterion sy'n bwysig i drigolion RhCT;
- Gweithio gyda swyddogion y Cyngor a phartneriaid i wella gwasanaethau;

**Pwy sy'n cael ei gynnwys?**

Mae Aelodau nad ydyn nhw'n Aelodau o'r Adain Weithredol (ynghyd ag aelodau cyfetholedig yn achos y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant) yn aelodau o'r Pwyllgorau Craffu ac mae pob Pwyllgor Craffu yn elwa o gymorth gan swyddogion. Caiff Aelodau'r Cabinet, Swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr o sefydliadau partner eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd i drafod materion dan sylw.

**Cynllunio Rhaglenni Gwaith**

Mae rhaglenni gwaith effeithiol yn sicrhau bod materion o bwys lleol yn cael eu hystyried mewn ffordd sy'n ychwanegu gwerth ac yn gwneud gwahaniaeth. Mae rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu yn nodi pynciau i'w trafod yn y flwyddyn nesaf a hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae hyn yn sicrhau bod y pwyllgorau'n canolbwyntio ar faterion sy'n flaenoriaeth, gan wneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau.

Eleni, cafodd y ffordd y caiff blaenraglenni gwaith eu datblygu ei newid, gan fabwysiadu dull cryfach sy'n cael ei arwain gan Aelodau. Mae'r dull yma'n nodi meysydd ar gyfer gwella ac yn newid y broses i greu rhaglenni gwaith sy'n manteisio i'r eithaf ar wybodaeth am gyflawniad; mae'n gwneud defnydd gwell o Raglen Waith y Cabinet ac yn gweithredu mesurau mwy effeithiol ar gyfer rheoli agendâu.

Arweiniodd y gwaith yma at raglenni gwaith sy'n cynnwys eitemau statudol/blynyddol, awgrymiadau gan Aelodau, data cyflawniad, materion perthnasol a nodwyd o raglen waith y Cabinet ac eitemau a oedd yn cyd-fynd â Chynllun

Corfforaethol y Cyngor. Mae'r rhaglenni gwaith yn fwy cryno, yn fwy penodol ac yn adlewyrchu buddiannau cymunedol a blaenoriaethau'r Cyngor.

**Grwpiau Gorchwyl a Gorffen / Gweithgorau**

Mae modd sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen / gweithgorau i gynnal archwiliad 'dan gyfyngiad amser' mewn perthynas â materion o ddiddordeb neu bryderon penodol. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen / Gweithgor yn cytuno ar gwmpas yr adolygiad. Bydd y cam yma'n cynnwys pennu cwestiwn neu'r cwestiynau i'w hateb, y ffordd y bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu i gyrraedd y canlyniad hwnnw (a chan bwy), y Cynghorwyr sydd wedi'u henwebu i fod yn rhan o'r grŵp, enwau unrhyw aelodau cyfetholedig a threfniadau cymorth gan swyddogion.

Bydd y broses o gasglu tystiolaeth yn cael ei chynnal gan ddefnyddio nifer o ddulliau, megis ymchwil bwrdd gwaith; adroddiadau gan swyddogion a gwahodd rhanddeiliaid i fynychu cyfarfodydd ac ymweliadau safle. Bydd adroddiad yn cael ei lunio er mwyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion y cytunwyd arnyn nhw. Bydd y rhain, ar ôl eu cymeradwyo, yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet er mwyn eu trafod.

Ar hyn o bryd mae dau Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'u sefydlu, **Gweithgor Craffu'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant a Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.**

Mae'r cyntaf wedi bod yn trafod effaith, canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, canlyniadau'r prosiectau cam cyntaf ac ail gam sydd yn mynd rhagddo/ar y gweill a sut maen nhw'n cyd-fynd â phum ffordd o weithio'r Ddeddf Llesiant. Ar hyn o bryd mae'r gweithgor yma'n penderfynu ar ei argymhellion er mwyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant, cyn i'r argymhellion gael eu trafod gan y Cabinet.

Mae'r ail yn gweithio ochr yn ochr â'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI) i ddiffinio'r paramedrau y mae modd i'r Cyngor weithredu oddi mewn iddyn nhw er mwyn cael effaith gadarnhaol ar newid, a hynny er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant sy'n byw mewn tlodi. Cyfeiriodd y **Cyngor Llawn** y mater yma at y Pwyllgor Craffu perthnasol ar ffurf **Rhybudd o Gynnig** a bydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cyngor ar ôl ei gwblhau.

Cyfeiriodd y Cyngor Rybudd o Gynnig pellach at sylw'r **Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned** a hynny er mwyn helpu'r Cabinet i wneud penderfyniad mewn perthynas â'r posibilrwydd o osod diffibriliwr achub bywyd ym mhob ysgol yn Rhondda Cynon Taf a sut y gellir sicrhau ei bod hi'n hawdd cael mynediad at y diffibrilwyr yma.

Mae manylion pellach am waith a chynnydd y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a'r Rhybudd o Gynnig wedi'u crybwyll yn yr adrannau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer y Pwyllgorau Craffu perthnasol.

**Cyfranogiad y Cyhoedd ac Ymgysylltu**

Mae modd cyrchu ffrydiau byw a recordiadau o gyfarfodydd y pwyllgorau ar wefan y Cyngor. Yma, mae modd i drigolion wylio cyfarfodydd yn fyw, ac mae hyn yn cynnig cyfle i ennill dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r broses graffu, sy'n rhan allweddol o'n gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd. Er mwyn atgyfnerthu'r ddealltwriaeth hon, rydyn ni'n parhau i gyhoeddi agendâu, rhaglenni gwaith a diweddariadau ar dudalennau gwe pwrpasol y Pwyllgorau Craffu mewn modd amserol. Mae ein gweithdrefnau ar gyfer rhannu adborth rhwng y Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet yn allweddol ac yn cael eu gweithredu'n gyson er mwyn rhannu adroddiadau a llythyron â'r Cabinet yn dilyn gwaith rhag-graffu. Mae'r broses yma'n bwysig gan ei bod hi'n darparu eglurder a dull atebolrwydd clir mewn perthynas â'n gweithdrefnau craffu a phenderfyniadau'r Cyngor.

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor yn nodi sut y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Rydyn ni'n parhau i adolygu ein trefniadau presennol i wella'r mesurau yma. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r cyhoedd mewn perthynas â'i broses ddemocrataidd ac yn bwysicach fyth eu cyfranogiad gwerthfawr.

Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi elwa o gyfranogiad pellach gan y cyhoedd yn rhan o'r broses graffu yn ystod blwyddyn gyfredol y Cyngor, gyda sawl aelod o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd er mwyn annerch y Pwyllgor. Mae hyn wedi amrywio o annerch y Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â dau gynnig i gau ysgol a dau gyfarfod Galw i Mewn sy'n ymwneud â safoni Casgliadau Gwastraff a Chynigion mewn perthynas â Gofal Preswyl. Rhoddodd trafodaethau'r Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gofal Preswyl gyfleoedd hefyd i Gymdeithas Alzheimer gymryd rhan yn y broses. Cyflwynodd y Gymdeithas Alzheimer gwestiynau i'w trafod.

Yn ogystal â hyn, roedd hi'n bleser gweld bod y broses newydd ar gyfer deisebau wedi cael ei rhoi ar waith, cafodd y broses yma ei chymeradwyo gan y Cyngor yn 2024. Atgyfeiriodd y Cyngor mater i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â dwy ddeiseb a dderbyniwyd yn ymwneud â safoni casgliadau gwastraff. Rhoddodd y broses gyfleoedd pellach i'r cyhoedd gymryd rhan ac ymgysylltu â'r broses ddemocrataidd wrth i'r Cyngor roi sylw dyladwy i'r deisebau a dderbyniwyd.

Bydd y Gweithgor Craffu ar faterion Tlodi Plant yn elwa o glywed safbwynt dinesydd sy'n ymchwilydd a byddan nhw'n ceisio pennu cyfleoedd pellach i ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan y CYBI.

**Sut rydyn ni'n cynnwys ein rhanddeiliaid a'n dinasyddion:**

- Mae ein canllawiau ymgysylltu â'r cyhoedd, sy'n rhoi gwybodaeth am sut y gall trigolion gymryd rhan mewn cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu, ar gael ar ein gwefan drwy glicio yma.
- Tudalennau gwe'r Pwyllgorau Craffu, sy'n cael eu hadolygu yn ôl yr angen, i sicrhau eu bod yn hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu trwy gyhoeddi gwybodaeth, agendâu a chylchoedd gorchwyl clir sy'n ymwneud â'r Pwyllgorau Craffu.
- Mae Blaenraglenni Gwaith yn rhoi cyfle i bawb fwrw golwg ar wybodaeth, amserlenni'r pwyllgorau a'r materion fydd yn cael eu trafod.
- Adroddiad Craffu Blynyddol - Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb statudol i lunio Adroddiad Craffu Blynyddol, a hynny er mwyn tynnu sylw at eu gwaith. Mae'r adroddiad yma'n crynhoi'r gwaith craffu sydd wedi'i gynnal yn ystod Blwyddyn y Cyngor.
- Darlledu cyfarfodydd, sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol a osodir ar y Cyngor.
- Gwahodd a chynnwys rhanddeiliaid a chynrychiolwyr allanol i gyfrannu at ehangu dealltwriaeth y pwyllgorau a llywio trafodaethau. Mae'r cynrychiolwyr a fynychodd eleni yn cynnwys:

    - Llywodraeth Cymru
    - Consortiwm Canolbarth y De
    - Penaethiaid
    - Staff addysgu
    - Heddlu De Cymru
    - Grŵp Cynghori Pobl Hŷn RhCT (OPAG)
    - Cynghorwyr Cymuned
    - Addysg Uwch

- Cynnwys aelodau cyfetholedig yn rhan o'n Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant. Mae'r aelodau cyfetholedig yma'n cynrychioli rhiant-lywodraethwyr, a'r Eglwys yng Nghymru.
- Ymgysylltu â'r cyhoedd gan sicrhau gonestrwydd ac eglurder, trwy ddarlledu holl gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu - mae modd dod o hyd i fanylion yma.
- Croesawu aelodau o'r cyhoedd i'n cyfarfodydd 'Galw i Mewn', a hynny er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw rannu sylwadau ac adborth gwerthfawr mewn perthynas â nifer o faterion pwysig (mae llawer o'r materion yma wedi'u cynnwys yn y rhan o'r adroddiad yma sy'n rhoi sylw i'r Pwyllgor Trosolwg a

Chraffu).

- Cynnwys rhanddeiliaid i gefnogi'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen gyda'u gwaith, gan ddarparu safbwynt a gwybodaeth arbenigol.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rydyn ni'n parhau i gynnal cyfarfod cyn prif gyfarfod y Pwyllgorau Craffu, a hynny er mwyn rhoi cyfle i Gadeiryddion ac Aelodau'r Pwyllgorau Craffu baratoi eu cwestiynau gan sicrhau eu bod nhw'n deall yr adroddiadau'n llawn. Drwy'r broses hon, mae gan yr Aelodau gyfle hefyd i drafod yr adroddiadau a phenderfynu a yw'r adroddiad wedi rhoi sylw dyledus i bob agwedd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys y saith nod Llesiant cenedlaethol a'r pum 'Ffordd o Weithio' sy'n helpu'r Cyngor i ddangos ei fod yn bodloni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy – h.y. '*Gweithredu mewn modd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.*

## Datblygu Dulliau Craffu Effeithiol / Rhaglen Datblygu Aelodau

Mae sicrhau'r diwylliant a'r ymddygiad cywir wrth wraidd swyddogaeth graffu effeithiol ac mae'r trafodaethau grŵp sy'n cael eu cynnal yn ystod y cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal cyn y prif gyfarfod yn rhoi cyfle i'r Aelodau weithio fel tîm a chynllunio a chydlynu eu cwestiynau. Yn ogystal â cheisio osgoi dyblygu, mae'n rhoi cyfle i Aelodau'r pwyllgor brofi eu dealltwriaeth ac yn creu strwythur ychwanegol i'w gynnwys yng ngwaith y pwyllgor.

Roedd yr enghraifft yma o arfer da wedi datblygu dealltwriaeth yr Aelodau o'r egwyddorion craffu drwy:

- Sicrhau bod gan y pwyllgor cyfan ddealltwriaeth glir o bwrpas cyffredinol ac amcanion penodol pob pwnc sydd wedi'i gynnwys yn yr agenda;
- Datblygu dulliau ymholi allweddol yn rhan o strategaeth holi er mwyn sicrhau bod cwestiynau perthnasol ac adeiladol yn ogystal â chwestiynau dilynol yn cael eu gofyn;
- Pennu cwestiynau sy'n ymwneud â themâu, a hynny i sicrhau bod y cwestiynau'n canolbwyntio ar y pwnc dan sylw, ac yn ei archwilio.

Mae modd i Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu, sydd ddim yn Aelodau o'r Adain Weithredol, fanteisio ar sesiynau datblygu un wrth un. Os yw'r Aelod o'r farn y byddai hyfforddiant pellach o fudd iddyn nhw neu'n ychwanegu at yr wybodaeth sydd gyda nhw ar hyn o bryd, mae modd gofyn am y sesiynau yma yn ystod Adolygiad o Ddatblygiad Personol yr Aelodau.

Eleni croesawodd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant dri aelod cyfetholedig newydd sydd wedi ymuno â'r pwyllgor ar ôl i gyfnod swydd yr aelodau blaenorol ddod i ben. Mae pob Aelod Cyfetholedig wedi cyflawni rhaglen hyfforddiant wedi'i theilwra i sicrhau eu bod nhw'n effro i'w cod ymddygiad a bod ganddyn nhw drosolwg o'r Pwyllgor Craffu y maen nhw'n rhan ohono.

Mae aelodau'r Pwyllgorau Craffu yn parhau i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriadau agored Llywodraeth Cymru a'r ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ac sy'n berthnasol i'w Pwyllgor Craffu nhw. Hefyd, mae modd iddyn nhw fanteisio ar ddarpariaeth ymchwil a chraffu'r Cyngor, swyddogion pwrpasol a gwybodaeth o safon uchel.

## Ymchwil a Chraffu

Uned Busnes y Cyngor sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth ymchwil, ac mae modd i bob Aelod fanteisio arno. Mae modd i'r cymorth ymchwil yma, sy'n cael ei ddarparu gan y Gwasanaethau Democrataidd, gryfhau rôl craffu ein Haelodau Etholedig drwy ddod o hyd i ddata ystadegol, gwybodaeth hanesyddol, siartiau, polisïau a deunyddiau cefndirol sy'n ymwneud â'r pwnc dan sylw. Mae'r cynnig yma o gymorth a chyfleoedd ymgysylltu wedi cael eu croesawu ac mae'n cael effaith amlwg ar y gwaith sy'n cael ei gynnal cyn cyfarfodydd y Pwyllgorau a'r trafodaethau sy'n cael eu cynnal gan yr Aelodau Etholedig.

Wrth gyflwyno ceisiadau ymchwil, gofynnwn i bob Aelod gwblhau ffurflen gais ymchwil gan nodi rhagor o fanylion am natur a phwrpas yr ymchwil. Dylid anfon unrhyw gais drwy e-bost at craffu@rctcbc.gov.uk. Cofiwch y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu'r holl geisiadau cyn iddo eu cymeradwyo a chynnal y gwaith ymchwil.

### Tudalen We 'Ymchwil'

Caiff yr Aelodau eu hatgoffa ei bod hi'n bosibl y bydd yr ymateb ar gael i holl Aelodau'r Cyngor yn ogystal â'r cyhoedd (ar wefan y Cyngor) os yw hynny'n briodol ac yn amodol ar natur y cais. Mae modd dod o hyd i dudalen Ymchwil yr Aelodau Etholedig yma.

Mae tri chais ymchwil sylweddol wedi cael eu cyflwyno a'u cwblhau yn ystod Blwyddyn 2024/2025 y Cyngor, mae manylion y rhain wedi'u nodi isod ac wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor:

- Gwasanaethau Bysiau Cyhoeddus - Cynnydd mewn Prisiau Tocynnau (Dyddiad Rhyddhau: 20 Mai 2024)
- Data Ysgolion Cynradd RhCT 2024 (Dyddiad Rhyddhau: 18 Tachwedd 2024)

- Dyfeisiau symudol mewn ysgolion (Dyddiad Rhyddhau: 19 Mawrth 2025)

**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022–2027**

Yn unol â'i gylch gorchwyl, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n gyfrifol am '*gydlynu gwaith y tri phwyllgor craffu thematig ac am sicrhau bod gwaith pob un o'r pwyllgorau hyn yn effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gymeradwyo'r rhaglenni gwaith sydd wedi'u datblygu gan y tri phwyllgor craffu thematig i sicrhau bod modd cyflawni'r rhaglenni hynny a'u bod yn gydlynol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Yn ogystal â hyn, mae'n cyflawni'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â phob thema drawsbynciol "Cyngor cyfan" sy'n berthnasol i gylchoedd gorchwyl y tri Phwyllgor Craffu thematig.*

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ddelio â phob achos sy'n cael ei 'Alw i Mewn' (o dan Reolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu y Cyngor).

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gyfrifol am nifer o feysydd sy'n rhan o'i bortffolio.

Eleni mae'r Pwyllgor wedi rhoi adborth ac argymhellion mewn perthynas ag adolygu polisïau a datblygu polisïau ar gyfer holl feysydd y Cyngor, gan gynnwys gosod Cyllideb y Cyngor a threfniadau corfforaethol y Cyngor ar gyfer diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Roedd hyn yn cynnwys y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y cynllun cyflawni ar gyfer 2023-24. Aeth y Pwyllgor ati i graffu ar y ddogfen ganllaw ddrafft ar gyfer aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â'r broses ar gyfer creu/derbyn deisebau sy'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor. Derbyniodd y Pwyllgor ei atgyfeiriad cyntaf gan y Cyngor yn rhan o Brotocol Deisebau diwygiedig y Cyngor, gan alluogi'r Pwyllgor i wrando ar farn defnyddwyr y gwasanaeth. Craffodd y Pwyllgor ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn rhan o Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor ar gyfer 2022-2026 (Y Diweddaraf am Gynllun Gweithredu 2024-2025). Mewn meysydd eraill, rhoddodd adborth ar gynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru mewn perthynas ag Adolygiad 2026 o Etholaethau'r Senedd a derbyniodd diweddariadau parhaus mewn perthynas â diogelwch tommenni glo.

Wrth ymateb i Rybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor mewn perthynas â Thlodi Plant, cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i weithio ochr yn ochr â'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI) i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi. Penderfynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn ystod tasg i asesu cwmpas ei waith, y byddai'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o’r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned a'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Ceisiodd y Gweithgor gymorth hefyd gan ddau ymchwilydd sy'n ddinesydd a phedwar sefydliad partner o'r sector gwirfoddol. Cyflawnodd y rhain rôl ymgynghori gan gynrychioli llais y trigolion yn ôl yr angen.

Mae amcanion cyffredinol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys:

- Llunio adroddiad sy'n trafod y dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â thlodi plant yn Rhondda Cynon Taf a chanfyddiadau'r Gweithgor a hynny i gefnogi meysydd gwasanaeth i roi'r argymhellion ar waith.
- Llunio cyfres o argymhellion clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a fydd yn ceisio gwella canlyniadau i blant sy'n byw mewn tlodi yn RhCT. Byddai'r rhain hefyd yn cael eu trafod gan y Cyngor a/neu'r Cabinet.
- Argymhellion o ran newidiadau posibl i bolisïau neu fentrau newydd sy'n ceisio ymateb i dlodi plant.

**Rhag-graffu**

Mae nifer sylweddol o adroddiadau rhag-graffu wedi'u llunio eleni ar draws yr holl Bwyllgorau Craffu. Mae'r broses hon yn parhau i roi cyfle i'r Aelodau hynny nad ydyn nhw'n rhan o'r Adain Weithredol wneud sylwadau ar benderfyniad arfaethedig cyn iddo gael ei wneud, ac felly'n rhoi cyfle gwerthfawr i'r Pwyllgorau Craffu ddylanwadu ar benderfyniadau trwy ddadl a her.

Mae'r Pwyllgorau Craffu yn defnyddio blaenraglen waith y Cabinet i ddewis pa faterion fydd yn cael eu trafod yn rhan o waith rhag-graffu cyn gwneud penderfyniad. Yn dilyn y gwaith rhag-graffu yma, ac ym mhob achos, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhannu manylion y trafodaethau sydd wedi'u cynnal â'r Cabinet yn ysgrifenedig. Bydd y Cabinet yn cydnabod ei fod wedi derbyn yr wybodaeth yma yn rhan o'i adroddiad, gan amlinellu barn y pwyllgor cyn gwneud penderfyniad (mae modd dod i'r wybodaeth yma drwy glicio ar y ddolen ar gyfer pob achos o waith rhag-graffu isod).

Roedd gwaith rhag-graffu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys:

- Rhag-graffu - Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2024-2030;
- Rhag-graffu – Trosolwg o Effaith a Gwaddol Eisteddfod Genedlaethol RhCT;
- Rhag-graffu – Cartrefi Gofal Preswyl i Bobl Hŷn;
- Rhag-graffu - Newidiadau i'r Gwasanaeth (yn amodol ar ymgynghoriad) - Cartrefi Gofal Preswyl i Bobl Hŷn
- Rhag-graffu - Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2023-24;

Mae modd dod o hyd i holl waith rhag-graffu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yma.

**Cyfarfodydd Galw i Mewn**

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd yn gyfrifol am fynd i'r afael â materion 'Galw i Mewn' y Cyngor. Dyma elfen allweddol o swyddogaeth graffu'r Cyngor sy'n rhan sylfaenol o drefniadau Llywodraethu'r Cyngor. Mae'r broses hon yn rhoi cyfle i Aelodau nad ydyn nhw'n Aelodau o'r Adain Weithredol alw penderfyniad allweddol sydd wedi'i wneud, ond heb ei weithredu eto, i mewn er mwyn ei archwilio. Unwaith y bydd y penderfyniad wedi'i Alw i Mewn, caiff y penderfyniad ei ohirio a ni chaiff y penderfyniad ei weithredu hyd nes y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'i drafod.

Yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Cyngor, mae dau benderfyniad y Cabinet wedi cael eu galw i mewn gan Aelodau gan roi cyfle i'r Pwyllgor Craffu ei drafod. Ar bob achlysur, mae'r Pwyllgor wedi croesawu'r cyfle i herio ac archwilio'r materion dan sylw ymhellach.

1. **GALW-I-MEWN**: Safoni Trefniadau Casglu Gwastraff y Cyngor (Gan Gynnwys Diwygiadau i Drefniadau Casglu Gwastraff Byd Masnach a Gwastraff Gwyrdd)

2. **GALW-I-MEWN**: Cartrefi Gofal Preswyl i Bobl Hŷn

### Strategaeth y Gyllideb

Yn ogystal â monitro cyflawniad ariannol y Cyngor drwy gydol y flwyddyn, mae Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd yn craffu ar y gwaith o bennu **Strategaeth Gyllideb y Cyngor**. Nod y gwaith yma yw sicrhau bod y cynigion sy'n cael eu gwneud yn cyfleu blaenoriaethau'r Cyngor ac yn dangos ein bod ni'n defnyddio'n hadnoddau mewn modd effeithiol ac effeithlon. Rhoddodd y Pwyllgor adborth ar nifer o feysydd a gafodd eu cynnwys yn rhan o adroddiad am yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb, ochr yn ochr â'r holl adborth arall a dderbyniwyd gan randdeiliaid, er mwyn i'r Cabinet eu trafod yn rhan o waith datblygu Strategaeth Ddrafft y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2025/26. Cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gyfle pellach i gynnal gwaith rhag-graffu mewn perthynas â Strategaeth Ddrafft y Gyllideb Refeniw yn ystod cam 2 o'r broses Ymgynghori ar y Gyllideb, gan dynnu sylw at yr effaith y mae craffu yn ei chael wrth drafod pennu cyllidebau Addysg, mesurau effeithlonrwydd arfaethedig a sut mae'r Cyngor yn defnyddio cronfeydd wrth gefn. Fe wnaeth Aelodau hefyd gydnabod y ddyletswydd gyfreithiol sydd ar holl Aelodau Etholedig y Cyngor i osod cyllideb gytbwys.

### Monitro Cyflawniad

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi parhau i dderbyn adroddiadau cyflawniad chwarterol sy'n darparu gwybodaeth am gyllidebau refeniw a chyfalaf yn ogystal â chyflawniad ac eithriadau allweddol. Mae adroddiadau cyflawniad chwarterol yn cael eu defnyddio fel ffordd o rannu manylion cynnydd, heriau a llwyddiannau â'r Aelodau Etholedig a'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn craffu ar gynnwys yr

adroddiadau yma trwy werthuso gwaith cyflawni gweithredol gwasanaethau'r Cyngor a hyrwyddo atebolrwydd ar draws holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yr holl Bwyllgorau Craffu, felly mae'r mecanwaith yma'n sicrhau bod gwaith craffu a monitro mewn perthynas ag adroddiadau cyflawniad yn cael ei gynnal yn gyson mewn sawl maes gwasanaeth ac mae modd i'r gwaith yma lywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu eraill. Mae hyn hefyd yn taflu goleuni ar flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r gwaith sy'n gysylltiedig â chyflawni rhaglen waith barhaus y Cyngor.

Yn ystod Blwyddyn gyfredol y Cyngor, mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi parhau i herio data Iechyd Sefydliadol y Cyngor, sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiadau chwarterol. Bydd y Pwyllgor yn ymchwilio'n fanylach i'r maes yma yn rhan o'r rhaglen waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2025/2026.

**Ymgysylltu ag Aelod Cabinet ddwywaith y flwyddyn**

Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gyfres o gyfarfodydd gydag Aelodau’r Cabinet i sicrhau bod gweithredoedd a phenderfyniadau’r Adain Weithredol yn eglur ac yn cael eu dwyn i gyfrif. Roedd y sesiynau yma’n hollbwysig wrth fynd ati i herio ac adolygu gwaith Aelodau’r Cabinet, gan roi cyfle iddyn nhw ateb cwestiynau ac ymdrin ag unrhyw bryderon a godwyd gan Aelodau’r Pwyllgor.

Mae'r broses hon yn rhan hanfodol o'r broses Graffu, ac yn rhoi cyfle i asesu penderfyniadau'r Cabinet gan sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol, ac yn unol ag amcanion strategol y Cyngor. Trwy ddwyn Aelodau'r Cabinet i gyfrif, mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn helpu i wella ansawdd y broses benderfynu ac yn sicrhau bod gan GBSRhCT ymddiriedaeth y cyhoedd.

**Mae modd dod o hyd i waith pellach y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yma**.

## Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant

Mae'r Pwyllgor yma'n gyfrifol am ganolbwyntio ar Addysg ac Ysgolion. Mae'n gyfrifol am gynnal gwaith craffu mewn perthynas â'r holl ddarpariaeth Addysg o 3-19 oed a'r holl wasanaethau eraill y mae pobl ifainc yn ymgysylltu â nhw yn ein cymunedau ac sy'n cael eu darparu gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal gwaith craffu ar Gonsortiwm Canolbarth y De, sydd wedi cyflawni agweddau ar wasanaethau gwella ysgolion ac sydd wedi'u comisiynu gan bum awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf) er mwyn darparu gwasanaeth gwella ysgolion sy'n herio, monitro ac yn cefnogi ysgolion i wella safonau. Mae'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg, yn ogystal â'r ddarpariaeth o ran ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Yn unol â'r gyfraith a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru, mae aelodau'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant yn cynnwys cynrychiolwyr o gredoau crefyddol a rhiant-lywodraethwyr sydd â'r hawl i bleidleisio.

### Ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg.

Yn ystod ei gyfarfod cyntaf ar 11 Medi, aeth yr Aelodau ati i ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad y Cyngor a oedd yn cynnig sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg. Cydnabyddir bod gwaith craffu yn elfen hanfodol o lywodraethu da a'i fod yn gwella prosesau gwneud penderfyniadau, darpariaeth gwasanaethau a threfniadau cost-effeithiolrwydd y Cyngor. Mae'r cyfle sydd gan y Pwyllgor i ymateb i'r ymgynghoriad yn y maes yma'n gwella atebolrwydd a bydd yn helpu Aelodau'r Cabinet i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r materion yma yn y dyfodol.

### Deilliannau

- Roedd Aelod o'r farn nad oedd darn pwysig o wybodaeth am y cyfleoedd ariannu a buddsoddi posibl pe bai'r ysgol yn cael ei hadeiladu fel ysgol cyfrwng Cymraeg, fel yr amlinellwyd yn opsiwn 3, yn glir yn yr adroddiad. Er mwyn helpu i ddeall y cynnig yn well, **argymhellwyd** y dylai gwybodaeth o'r fath gael ei wneud yn fwy amlwg yn yr adroddiad. Gofynnodd yr Aelodau am ddatganiad cryfach i gadarnhau a fyddai cynnig i sefydlu Ysgol Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys achos ariannu cryfach wrth geisio cymorth gan Lywodraeth Cymru.

- Roedd Aelod yn bryderus bod y ddarpariaeth addysg ar gyfer trigolion yr ystâd o dai newydd yn cael ei phennu gan grantiau a thargedau, yn hytrach

nag angen, a theimlai fod trigolion yn cael eu gorfodi i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. Nododd yr Aelodau'r arwyddion gwreiddiol ar gyfer yr ysgol newydd yma, y bwriedir iddi fod yn ysgol cyfrwng Saesneg. Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ynghylch capasiti'r ysgol cyfrwng Saesneg.

- Roedd Aelodau'n bryderus ynghylch goblygiadau ariannol y cynnydd posibl mewn cludiant o'r cartref i'r ysgol, a oedd wedi'i amlygu, a chynaliadwyedd hyn.
- Argymhellodd Aelodau y byddai modd cryfhau iaith a bwriad y cynnig o ran darparu dosbarth Meithrin, e.e. 'Byddwn ni'n gweithio gyda Mudiad Meithrin i sefydlu dosbarth Meithrin'... yn hytrach na 'cheisio darparu dosbarth Meithrin'.
- Roedd Aelod o'r farn bod yr elfennau Adnoddau Dynol ychydig yn amwys a ddim yn gyson drwy'r ddogfen o ran staff cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Dolau, ac **argymhellodd** fod y Cyngor yn rhoi sicrwydd i staff o'r cychwyn cyntaf.
- Nododd Aelod fod sawl Aelod wedi sôn am leoedd gwag dros ben, ond teimlai mai'r hyn sy'n bwysig yw beth y gellid ei wneud i fynd i'r afael â'r lleoedd gwag hynny, ac **argymhellodd** fod angen cynnal ymgyrch ar y cyd yn gynharach yn y broses, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Teimlai'r Aelod ei bod yn bwysig i bobl ddeall manteision addysg cyfrwng Cymraeg a chael y dewis. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr na fydden ni ymhen 10 mlynedd mewn sefyllfa lle mae mwy o leoedd gwag na'r hyn sydd nawr. Mae hefyd yn bwysig ceisio cyflawni targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

## Trefniadaeth Ysgolion Statudol - Cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr

Yn ystod ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2024, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a roddodd gyfle arall i'r Aelodau weithredu fel ymgyngoreion yn ystod yr ymgynghoriad ar Drefniadaeth Ysgolion Statudol – Cynnig i gau'r Chweched Dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymunedol Aberdâr. Byddai cynnwys y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant fel ymgyngoreion yn cyfrannu at ansawdd a chadernid penderfyniadau'r Cabinet ac roedd yr Aelodau'n ddiolchgar am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad.

### Deilliannau

- Nododd Aelod fod yr adroddiad yn tynnu sylw at ddiffygion cyllid sylweddol yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr ar gyfer addysg Ôl-16 a gofynnodd am eglurhad ar sut y byddai'r cynnig yn arwain at ddarpariaeth Ôl-16 fwy cynaliadwy yn ariannol.

- Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch sut y byddai'r Cyngor yn sicrhau hygyrchedd i ddisgyblion ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig eraill.

- Fe wnaeth Aelod gydnabod bod y ffigurau ar gyfer Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi'u darparu yn yr adroddiad ond roedd yn teimlo y byddai'n gymharydd defnyddiol i weld faint o bobl ifainc oedd yn astudio Safon Uwch yn Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru ac **argymhellodd** y dylai hyn gael ei gynnwys yn yr adroddiad terfynol i'r Cabinet.

- **Argymhellodd** Aelod hefyd y dylai ffigurau cyrchfannau gael eu darparu yn yr adroddiad terfynol i'r Cabinet, i roi sicrwydd y byddai'r newidiadau yma'n sicrhau bod addysg chweched dosbarth yn yr ardal yn gynaliadwy ar draws dwy ysgol yn gweithio ar y cyd, yn hytrach na'r tair.

- Gofynnodd Aelodau am sicrwydd bod ymgyngoreion priodol yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg), gan gydnabod y cyfle ar gyfer Trochi yn y Gymraeg, pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.

- Mynegodd Aelod bryder ynghylch pa gamau oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw presennol gwerth £1.4 miliwn a pha effaith y byddai hyn yn ei chael ar ddyfodol Ysgol Gyfun Aberpennar, gan gydnabod, er bod yr adroddiad yn nodi y byddai Ysgol Gyfun Aberpennar yn parhau i ddarparu addysg uwchradd ar gyfer disgyblion, a oedd unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r ysgol i wella ei hapêl, a'r ddarpariaeth addysg gyffredinol, gan gydnabod y byddai rhai rhieni o bosibl yn ystyried dechrau eu plant yn gynt yn Ysgol Gymunedol Aberdâr neu Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru yn lle, pe na bai chweched dosbarth yno, gyda chludiant o'r cartref i'r ysgol wedi'i warantu ar gyfer ysgolion ffydd.

- Tynnodd Aelodau sylw at eu pryderon gan ofyn am eglurhad a sicrwydd ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol, gan gynnwys y costau uwch posibl nad ydyn nhw'n hysbys ar y cam ymgynghori.

**<u>Gweithgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant: Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy</u>**

Mae'r Gweithgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant wedi parhau i gynnal cyfarfodydd yn ystod Blwyddyn gyfredol y Cyngor ac ar ôl derbyn canlyniadau'r arolwg cychwynnol a anfonwyd at yr ysgolion hynny a ddewiswyd, derbyniodd yr Aelodau adroddiad lefel uchel, mewn perthynas â chanlyniadau cronnol yr arolwg. Cafodd yr arolwg ei rannu ag ysgolion ddwywaith i sicrhau bod gan bawb gyfle i ymateb. Cafodd yr ymatebion

eu cyflwyno i'r Aelodau ar ffurf taenlen. Rhoddodd y daenlen hon gyfle i Aelodau gael syniad o'r cryfderau a'r meysydd y mae angen eu harchwilio ymhellach yn ystod ymweliad â'r ysgol.

Ar ôl i'r Aelodau drafod yr ymatebion a dderbyniwyd, cytunwyd i lunio cyfres eang o gwestiynau, rhai cwestiynau sy'n mynd i'r afael â'r meysydd cadarnhaol a rhai cwestiynau sy'n mynd i'r afael â'r materion sy'n peri pryder, y byddai modd eu cyfeirio at wahanol randdeiliaid ar hyd y rhestr o themâu a drafodwyd.

Yn ystod mis Medi 2024, cynhaliodd y gweithgor ymweliadau â chwe ysgol ledled y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys Ysgol Gynradd Treorci, Ysgol Y Pant, Ysgol Gymuned Tonyrefail, Ysgol Gynradd Cwmaman, Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun ac Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr. Yn dilyn yr ymweliadau yma, cafodd yr ymatebion eu casglu a'u rhannu â'r Aelodau ym mis Rhagfyr 2024, er mwyn eu trafod cyn cyfarfod olaf y Gweithgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant ym mis Chwefror 2025.

Yn ystod cyfarfod olaf y Gweithgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant ym mis Chwefror 2025, llwyddodd yr Aelodau i lunio set derfynol o argymhellion, sy'n cyd-fynd ag adborth yr arolwg a'r naratif a dderbyniwyd.

Mae adroddiad terfynol y Gweithgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant bron â chael ei gwblhau a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant yn ystod ei gyfarfod cyntaf ym Mlwyddyn y Cyngor 2025/2026 er mwyn ei gymeradwyo. Bydd dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet yn cael ei gadarnhau maes o law.

**Mae gwaith arall yn cynnwys:**

Mynychu'r Ysgol a Rhwystrau o ran Ymgysylltu ag Ysgolion - 11 Medi 2024

Cwnsela mewn Ysgolion – 11 Medi 2024

Ymgysylltu ag Aelod Cabinet ddwywaith y flwyddyn - 14 Hydref 2024

Gwaith Consortiwm Canolbarth y De yn y Rhanbarth ac Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf 2023 - 2024 - 14 Hydref 2024

Ymgynghoriad ar y cynigion i wella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Prif Ffrwd - Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf - 14 Hydref 2024

Trefniadaeth Ysgolion Statudol – Cynnig i Gau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg a Throsglwyddo'r Disgyblion i Ysgol Gymuned Tonyrefail - 24 Hydref 2024

Trefniadaeth Ysgolion Statudol - Cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen - 24 Hydref 2024

Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg – Y Diweddaraf am y Cynllun Blynyddol - 10 Rhagfyr 2024

Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn RhCT - 10 Rhagfyr 2024

Llywodraethu Ysgolion – 29 Ionawr 2025

Moderneiddio Ysgolion – Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - 29 Ionawr 2025

Ymgysylltu ag Aelod Cabinet ddwywaith y flwyddyn – 13 Mawrth 2025

Pontio i'r Ysgol Uwchradd ac Arlwy'r Cwricwlwm - 13 Mawrth 2025

Gwasanaethau Gwella Ysgolion Arfaethedig yn Rhondda Cynon Taf - 13 Mawrth 2025

Ysgolion Bro – Ymgysylltu Teuluoedd â Dysgu - 9 Ebrill 2025

Anghenion Dysgu Ychwanegol – continwwm o gymorth - 9 Ebrill 2025

Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru – Dyddiadau Tymhorau Ysgol 2026 i 2027 – 9 Ebrill 2025

## Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned

Mae'r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned yn gyfrifol am ganolbwyntio ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor ac sy'n cefnogi Iechyd a Lles ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid yn y Gwasanaeth Iechyd a hefyd ystyried ffactorau sy'n cefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gefnogi pobl hŷn. Mae'r Pwyllgor Craffu yn trafod gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, yn ogystal â'r holl ffactorau eraill sy'n cyfrannu at Iechyd a Lles y Fwrdeistref Sirol, megis Gwasanaethau Hamdden a Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd. Yn rhan o'i gylch gwaith, ac ochr yn ochr â'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, mae'n trafod cyfrifoldebau'r Cyngor fel Rhiant Corfforaethol, gan gynnwys cyfrifoldebau o ran Plant sy'n Derbyn Gofal. Hefyd, y Pwyllgor yma yw Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn dynodedig y Cyngor (yn unol ag Adran 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006).

### Trafodaethau Cyn y Cyfarfod

Yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Cyngor, mae'r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned wedi ymrwymo i gryfhau ei ddefnydd o drafodaethau cyn cyfarfodydd, arfer da sy'n cael ei gydnabod gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae hyn wedi arwain at gwestiynu mwy effeithiol a manwl a chydnabod themâu allweddol a dulliau ymholi allweddol, a hynny er mwyn sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i'r materion yma yn ystod y cyfarfod. Mae'r Aelodau wedi bod yn frwdfrydig wrth ymgysylltu â'r trafodaethau cyn cyfarfodydd ac mae hyn wedi arwain at drafodaethau mwy manwl wrth graffu ar yr adroddiadau a dderbyniwyd.

### Rhag-graffu ar y Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion (Drafft)

Yn ystod ei gyfarfod ar 9 Medi 2024, manteisiodd y Pwyllgor ar y cyfle i gynnal gwaith rhag-graffu mewn perthynas â chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2024 - 2030 ac i lunio argymhellion mewn perthynas â'r strategaeth ddrafft. Roedd yr Aelodau'n cydnabod pwysigrwydd llunio strategaeth glir ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, gan nodi cyfres benodol o flaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae strategaeth o'r fath yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio a dyrannu ei adnoddau i sicrhau deilliannau cadarnhaol a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl hynny sydd angen ein cymorth ni, ac sy'n gymwys i'w gael.

Deilliannau:

- **Argymhellodd** yr Aelodau fod gwaith monitro a gwerthuso clir yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y strategaeth. Croesawodd yr Aelodau fwriad y Cyfarwyddwr i gynllunio'r strategaeth 5 mlynedd mewn modd sy'n sicrhau bod y cynllun gwasanaeth blynyddol yn gosod rhai blaenoriaethau heriol ar gyfer y flwyddyn i ddod, a hynny er mwyn cyflawni deilliannau'r strategaeth. Rhoddodd y dull gwerthuso blynyddol ar

gyfer gwasanaethau gyfle i bennu a oedd y gwasanaeth yn cyflawni’r blaenoriaethau a osodwyd.

- **Argymhellodd** yr Aelodau y dylai unrhyw ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal yn y dyfodol gynnwys cyfleoedd clir sy'n galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ymgysylltu â'r broses. Nododd yr Aelodau fod canlyniadau'r ymgynghoriad yn dangos bod nifer isel o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi ymgysylltu â'r broses, o'i gymharu â nifer y staff a ymatebodd. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch yr anghydbwysedd posibl yn y canlyniadau. Cydnabu’r Aelodau ymateb y Cyfarwyddwr a oedd yn amlinellu’r dull ymgynghori cadarn a rhannodd y Cyfarwyddwr fod cyfraddau ymateb ymhlith defnyddwyr gwasanaeth yn isel wrth ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus. Nododd yr Aelodau hefyd fod yr ymgynghoriad yma wedi para cyfnod byrrach, ac mae'n bosibl bod rhai yn teimlo syrffed ar ymgynghoriadau sy'n ymwneud â strategaeth gyffredinol.
- Gofynnodd Aelodau **am ddiweddariad pellach** ar y camau sy'n cael eu cymryd i ymgysylltu â thrigolion a cheisio rhoi sicrwydd iddyn nhw bod y strategaeth hon er eu lles gorau. Nododd yr Aelodau fod canlyniadau'r ymgynghoriad yn dangos bod 29% o'r ymatebwyr 'ddim yn cytuno' neu 'ddim yn gwybod' ai dyma'r blaenoriaethau cywir ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a nodwyd bod 37% o'r ymatebwyr 'ddim yn cytuno' neu 'ddim yn gwybod' a fyddai'r model gwasanaeth yn helpu i dargedu adnoddau a helpu'r rhai sydd eu hangen mwyaf yn y dyfodol.

### Prydau yn y Gymuned (Pryd-ar-glud)

Yn ystod ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2024, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi sylw i'r adolygiad o'r Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned yn Rhondda Cynon Taf. Yn dilyn trafodaeth gan y Cydbwyllgor Ymgynghori, trwy Gydweithwyr Undebau Llafur y Cyngor, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned graffu ar yr adroddiad.

### Deilliannau:

- Holodd yr Aelodau am allu'r maes gwasanaeth i ymateb i'r newidiadau angenrheidiol sy'n ymwneud â deietau a ragnodwyd gan feddyg a **gofynnwyd am gadarnhad** bod y Cyngor yn hyderus ei fod yn gallu ymateb i'r newidiadau sy'n ymwneud â gofynion dietegol, a hynny er mwyn sicrhau diogelwch y defnyddiwr gwasanaeth a staff y Cyngor sy'n dosbarthu ac yn paratoi prydau bwyd.
- Nodwyd bod yr adroddiad yn dangos gostyngiad yn nifer y prydau bwyd (ar gyfartaledd) sy'n cael eu darparu bob dydd ers y newid i'r gwasanaeth. Er bod yr Aelodau’n cydnabod natur amrywiol y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn,

gofynnodd yr Aelodau am dystiolaeth i esbonio'r gostyngiad yn nifer y prydau sy'n cael eu darparu.

- Croesawodd y Pwyllgor gynrychiolydd o'r Grŵp Cynghori Pobl Hŷn (OPAG) a ofynnodd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â chynnyrch nad oes modd eu plicio a sicrwydd nad oedd hyn yn effeithio ar allu defnyddwyr gwasanaethau i fwyta'r cynnyrch. Er bod yr Aelodau wedi cytuno mewn egwyddor â'r angen i newid i fersiwn nad oes modd ei phlicio, **argymhellodd** yr Aelodau y dylai staff barhau i ddarparu cymorth i sicrhau bod prydau bwyd yn parhau i fod yn hygyrch.
- Gofynnodd cynrychiolydd OPAG am eglurhad ynghylch y broses o ddarparu prydau bwyd dros y penwythnos, gan nodi'r model gweithredu 5 diwrnod a amlinellwyd yn yr adroddiad. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod y gwasanaeth yn cynllunio ar gyfer y penwythnos drwy ddarparu prydau bwyd wedi'u rhewi yn ôl y gofyn.
- Roedd Aelodau'r Pwyllgor a gwesteion yn falch o nodi bod y gwasanaeth Prydau yn y Gymuned yn RhCT yn parhau o hyd, o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill lle mae'r ddarpariaeth wedi dod i ben. Mae modd i drigolion RhCT fanteisio ar wasanaeth gwerthfawr a hollbwysig o hyd.
- Gofynnodd Aelod **am wybodaeth bellach** ynglŷn â chynlluniau a nodau hirdymor y gwasanaeth o ran mynd i'r afael â'r pwysau sydd ar staff y gegin neu staff gweinyddol i gyflawni rôl gyrrwr, a hynny o ganlyniad i ddiffyg gyrwyr.
- Er bod yr Aelodau’n cytuno bod sicrhau gwerth am arian yn bwysig yn achos y Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned, gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y broses dendro ar gyfer caffael gwasanaethau allanol a sut mae hyn yn cael ei hadolygu i sicrhau bod y Cyngor yn cael y gwerth gorau am arian.
- Roedd yr Aelodau’n falch bod unrhyw ddyled sydd gan gwsmeriaid yn cael ei rheoli mewn ffordd sy'n dangos cydymdeimlad.
- Nododd yr Aelodau fod technoleg yn cael ei chyflwyno er mwyn cynnal holiaduron ac arolygon boddhad gyda defnyddwyr y gwasanaeth ac **argymhellir** bod data sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a phrofiadau defnyddwyr y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor yn ystod cyfarfod yn y dyfodol, ac yn destun gwaith craffu.

**Diffibrilwyr mewn Ysgolion**

Yn dilyn y Rhybudd o Gynnig a gafodd ei gyflwyno yn ystod cyfarfod y Cyngor ar 27 Tachwedd 2024, gofynnodd y Cyngor bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i lywio penderfyniad posibl gan y Cabinet mewn perthynas ag argaeledd diffibrilwyr mewn ysgolion a'r camau gwella sydd eu hangen er mwyn gwella argaeledd

yr unedau, gan sicrhau bod modd i'r gymuned ehangach gael mynediad atyn nhw lle bo angen, ac i sicrhau bod yr unedau'n cael eu cynnal a'u cofrestru lle bo'n berthnasol yn rhan o rwydwaith 'The Circuit' (y rhwydwaith diffibrilwyr cenedlaethol).

Yn ystod ei gyfarfod ar 28  Ebrill 2025, derbyniodd y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned adroddiad yn archwilio argaeledd a darpariaeth diffibrilwyr mewn ysgolion yn Rhondda Cynon Taf.

**Deilliannau:**

- Manteisiodd Aelodau ar y cyfle i drafod faint o ddiffibrilwyr sydd ar gael mewn ysgolion a nododd yr Aelodau'r wybodaeth gadarnhaol fod diffibriliwr wedi'i osod ym mhob ysgol uwchradd.
- Fe wnaeth yr Aelodau **argymell** bod cymorth a hyfforddiant digonol yn cael eu darparu i Gyrff Llywodraethu a Phenaethiaid i sicrhau eu bod nhw'n cyflawni'r holl hyfforddiant a'r gwaith cynnal a chadw angenrheidiol sy'n gysylltiedig â gosod diffibrilwyr ar safleoedd ysgol.
- Argymhellodd yr Aelodau y dylid rhannu gwybodaeth glir ynghylch y cyllid sydd ar gael ar gyfer grwpiau sy'n dymuno ymchwilio i'r posibilrwydd o osod diffibriliwr yn eu cymuned.
- Nododd yr Aelodau fod mwy o gyfleoedd erbyn hyn i archwilio'r posibilrwydd o osod diffibrilwyr y mae modd i'r cyhoedd gael mynediad atyn nhw mewn ysgolion, gan nodi'r angen i ystyried materion staffio a diogelu.
- Nododd yr Aelodau hefyd bod angen gwneud gwaith pellach i dynnu sylw at argaeledd diffibrilwyr yn y gymuned ehangach, y tu allan i leoliadau ysgolion.
- Cytunodd Aelodau **i gynnal cyfarfod gweithgor** yn rhan o'u rhaglen waith ar gyfer blwyddyn nesaf y Cyngor, a hynny er mwyn cynnal gwaith craffu pellach mewn perthynas â'r posibilrwydd o osod diffibrilwyr y mae modd i'r cyhoedd gael mynediad atyn nhw mewn ysgolion, a hefyd cynnal gwaith mapio mewn perthynas â'r holl ddiffibrilwyr mynediad cyhoeddus sydd eisoes wedi'u gosod yng nghymunedau Rhondda Cynon Taf.

**Mae gwaith arall yn cynnwys:**

Rhag-graffu - Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned RhCT - Arolygiad Estyn

Rhag-graffu - Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhag-graffu - Adroddiad Blynyddol ar Weithdrefnau Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhag-graffu - Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Ddrafft: Ymgynghoriad Cyhoeddus

Strategaeth Trawsnewid Gwasanaeth Preswyl y Gwasanaethau i Blant:

Oedi yn y Llwybr at Ofal

Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol 2022–27: Adroddiad Cynnydd

Gwerthusiad terfynol Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar

Y diweddaraf o ran Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaethau i Blant

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Strategaeth 'Cymorth Cywir, Amser Cywir a Lle Cywir' y Gwasanaethau i Blant

Ymgysylltu ag Aelod Cabinet ddwywaith y flwyddyn (Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

**Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymuned (Trosedd ac Anhrefn)**

**Rhag-graffu - Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Alcohol a Sylweddau**

Yn ystod ei gyfarfod ar 2 Medi 2024, cynhaliodd y Pwyllgor waith rhag-graffu mewn perthynas â chanlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd i adolygu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus 2021 a llunio argymhellion ar gyfer Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus newydd ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Rhoddodd yr Aelodau sylwadau ac adborth i'r Cabinet cyn ei gyfarfod ar 23 Medi 2024. Ymunodd Prif Arolygydd Heddlu De Cymru â'r cyfarfod a rhoddodd fewnwelediad gwerthfawr i Aelodau o safbwynt Heddlu De Cymru.

**Deilliannau:**

- Nododd yr Aelodau'r data sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd fel Porth a Thonyrefail a gofynnodd Aelodau am eglurhad ynghylch a fyddai'r ardaloedd yma'n elwa o Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus hefyd.

- Gofynnodd yr Aelodau a ddylai lefel y ffioedd mewn perthynas â'r hysbysiadau cosb penodedig aros ar eu lefelau presennol neu a ddylai'r ffioedd gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cynrychioli dull atal effeithiol.

- Ceisiodd Aelod sicrwydd bod pob achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei gofnodi'n llwyddiannus drwy ffonio 101 a ph'un a oedd presenoldeb y Wardeiniaid Cymunedol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn parhau i weithredu fel dull atal effeithiol ai peidio.

- Trafododd yr Aelodau effeithiolrwydd y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus o ran gallu mynd i'r afael â phobl sy'n troseddu dro ar ôl tro ac roedden nhw'n fodlon ag ymateb y Swyddog ynghylch defnyddio deddfwriaeth mewn modd effeithiol. Nododd yr Aelodau mai RhCT yw'r Awdurdod Lleol cyntaf, a'r unig Awdurdod, i weithredu deddfwriaeth arall ochr yn ochr â deddfwriaeth y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus.

- Cydnabu'r Aelodau bwysigrwydd gweithredu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus a nodwyd cefnogaeth y cyhoedd, sydd i'w gweld yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Ar y cyfan, nododd y Pwyllgor ei gefnogaeth o blaid y cynigion.

**Gwaith arall:**

Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – craffu ar weithgarwch i leihau achosion o'r fath yn Rhondda Cynon Taf

Adolygiad o brosiect newydd sy'n cyflawni gwaith allgymorth yn y gymuned i fynd i'r afael â cham-drin domestig

**Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant**

Mae'r Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant yn craffu ar benderfyniadau mewn nifer o feysydd allweddol, sef Gwasanaethau Rheng Flaen y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys craffu ar dargedau ailgylchu'r Cyngor, gwaith cynnal a chadw'r priffyrdd a mynediad at hawliau tramwy cyhoeddus; materion yr Hinsawdd yn unol â Strategaeth Newid Hinsawdd a Ffyniant y Cyngor, sy'n cwmpasu twristiaeth, adfywio canol trefi a chefnogi twf yr economi leol. Mae rhagor o fanylion am gylch gwaith y Pwyllgor i'w gweld yma.

**Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC)**

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant waith rhag-graffu mewn perthynas ag **Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC)** yn ystod Blwyddyn gyfredol y Cyngor gyda'r bwriad o roi adborth i'r Cabinet cyn iddo drafod y materion dan sylw.

Ar 12 Tachwedd 2024, cynhaliodd y Pwyllgor waith rhag-graffu mewn perthynas ag Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer 2024/25 gyda'r bwriad o rannu ei sylwadau a'i adborth â'r Cabinet yn ystod y ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2024. Rhannwyd gwybodaeth gynhwysfawr â'r Aelodau am rôl y Cyngor, ac yntau'n Awdurdod Codi Tâl yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC), ac roedden nhw'n deall arferion ASC ac Adran 106 a'r gwahaniaeth rhwng y dulliau a'r goblygiadau sy'n berthnasol i'r ddau. Aeth yr Aelodau ati i archwilio pwysigrwydd sicrhau bod gan bob cymuned fynediad cyfartal i'r cynlluniau gwella seilwaith lleol sy'n cefnogi gwaith datblygu yn yr ardal leol gan ddefnyddio incwm ASC.

Mae rhai sylwadau ac argymhellion wedi'u nodi isod:

- Roedd yr Aelodau'n deall y rhesymau hanesyddol dros weithredu'r polisi codi tâl gwreiddiol, yn enwedig ar gyfer Parth Un, ond roedden nhw'n pryderu y gallai ardaloedd fod wedi elwa o incwm ASC o ganlyniad i'r datblygiadau mawr sydd wedi'u rhoi ar waith yn ardaloedd Cwm Rhondda a Chwm Cynon;

- Cododd yr Aelodau nifer o bryderon ynghylch perthnasedd cofrestr codi tâl y Cyngor (a gafodd ei mabwysiadu ar 31 Rhagfyr 2014) sy'n nodi bod Parth Un yn cyfateb i £0 fesul metr sgwâr a bod eu pryderon ynghylch ecwiti'r incwm a dderbynnir yn cael eu lliniaru. Felly, pe bai'r Cabinet o blaid bwrw ymlaen â'r cynnig i gymeradwyo'r adroddiad, cynigiodd yr Aelodau y dylai'r awdurdod gynnal adolygiad o'i gofrestr codi tâl (i gynnwys y broses arolygu ac ymgynghori â sefydliad Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)) i sicrhau bod y ffigurau ar gyfer pob parth yn parhau i fod yn addas (yn enwedig ar gyfer

y wardiau hynny sydd wedi'u nodi ym Mharth Preswyl un);

- Cafodd y Cabinet ei ofyn i drafod argymhelliad y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant a oedd yn nodi y dylid ystyried y cydbwysedd ariannol ar gyfer yr ardaloedd hynny lle nad oes Cyngor Cymuned/Tref yn ôl nifer y wardiau daearyddol yn hytrach nag un ardal, a hynny er budd eglurder a chan ystyried y goblygiadau o ran materion traffig/priffyrdd yn yr ardal ehangach a'r cymunedau lleol eraill yr effeithir arnynt;

- Gofynnodd Aelod gwestiwn ynghylch pa mor aml y mae'r Rhestr Rheoliad 123 yn cael ei diweddaru gan fod yr Aelodau wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai rhannau o'r rhestr elwa o waith adolygu pellach gan sicrhau bod pob prosiect priffyrdd ac addysg wedi'i ddiweddaru; awgrymodd yr Aelodau y dylid adolygu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn unol â'r CDLl a byddai uno'r broses yn gwneud synnwyr;

Cafodd adborth y Pwyllgor ei rannu â'r Cabinet yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024.

**Strategaeth Dreftadaeth Ddrafft y Cyngor**

Cyfrannodd y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant at y broses ymgynghori mewn perthynas â Strategaeth Dreftadaeth ddrafft y Cyngor yn ystod ei gyfarfod ar 16 Medi 2024. Cydnabu'r Aelodau mai un o amcanion allweddol y prosiect yw datblygu a ffurfioli strategaeth dreftadaeth ac roedd Aelodau wedi meithrin dealltwriaeth ddyfnach o dreftadaeth RhCT a'r rheiny sy'n ymwneud â'i rheoli. Roedd y gwaith ymgysylltu a chyfranogiad y cyhoedd yn rhan allweddol o waith datblygu'r strategaeth.

Cafodd yr adborth/sylwadau canlynol eu rhannu a'u cynnwys yn y broses ymgynghori er mwyn llywio'r strategaeth derfynol:

- Cydnabu’r Aelodau bwysigrwydd cynnwys sefydliadau llai a phrosiectau cymunedol yn rhan o waith Treftadaeth RhCT a gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd cynnal gwaith mapio i greu cronfa ddata ffurfiol;

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch sut y byddai'r maes gwasanaeth yn cynnal diddordeb yn yr amgueddfeydd a'r safleoedd treftadaeth ledled RhCT yn y dyfodol ac yn bwysicach fyth sut byddai'r maes gwasanaeth yn sicrhau bod cwricwlwm yr ysgolion yn cysylltu â threftadaeth y Cyngor trwy ddarparu pecynnau cymorth ac ymweliadau;

- Roedd ymgysylltu â phlant a phobl ifainc RhCT yn rhan annatod o'r adborth a'r drafodaeth gan fod yr Aelodau'n awyddus i fanteisio ar bob cyfle i gysylltu plant a phobl ifainc â threftadaeth, a hynny trwy ysgolion neu Wasanaeth y

Llyfrgelloedd, gyda'r bwriad o gynyddu sut mae plant yn ymgysylltu â phrosiectau ymarferol yng nghymunedau RhCT;

- Roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau bod materion treftadaeth yn cael eu hintegreiddio yn rhan o gynlluniau a pholisïau meysydd gwasanaeth eraill. Gofynnodd yr Aelodau fod tystiolaeth o hyn yn cael ei chynnwys mewn adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn y dyfodol, i sicrhau bod y gydberthynas yn glir fel sydd wedi digwydd yn achos adfywio canol trefi;

- Aeth yr Aelodau ati i drafod pwysigrwydd hyrwyddo safleoedd treftadaeth ac achlysuron allweddol RhCT ar raddfa fawr er mwyn sicrhau eu bod nhw'n llwyddiannus. Mae arddangosfeydd a chyflwyniadau allanol a fydd yn cael eu cynnal ar y cyd â sefydliadau eraill eisoes wedi'u trefnu.

**Ymgysylltu ag Aelod Cabinet ddwywaith y flwyddyn**

Cafodd aelodau'r Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant gyfle pellach i graffu ar yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (y mae ei phortffolio'n cynnwys Gwasanaeth Treftadaeth y Cyngor ac Atyniadau Ymwelwyr) mewn perthynas â gweithredu Strategaeth Dreftadaeth y Cyngor, a'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma, yn ystod y sesiwn Ymgysylltu ag Aelod Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2025.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i ddysgu a oedd unrhyw batrymau arwyddocaol wedi dod i'r amlwg o ran cyfranogiad gan wirfoddolwyr a'r gymuned. Hefyd, a oes unrhyw geisiadau am gyllid pellach wedi'u cyflwyno, yn debyg i'r prosiect 'Diwygio Delweddau' a dderbyniodd grant gwerth £250,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiect tair blynedd ym mis Awst 2021. Cytunwyd y bydd y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant yn parhau i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran y gwaith treftadaeth sy'n cael ei gynnal yn RhCT yn ystod blwyddyn nesaf y Cyngor ac yn craffu ar y cynlluniau gweithredu cysylltiedig i nodi unrhyw fylchau yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

Heriodd yr Aelodau'r Aelod o'r Cabinet mewn perthynas â lefelau cyflawniad y Cyngor o ran ailgylchu yn ystod 2024/25, a hynny'n dilyn y penderfyniad i symud i gasgliadau bob 3 wythnos yn achos casgliadau gwastraff gweddilliol o gartrefi yn ogystal â chasgliadau banciau poteli, gwydr a phrosesu, ymwybyddiaeth o wastraff a gwasanaeth addysg y Cyngor. **Ymweliad â Safle Bryn Pica** – Cafodd yr Aelodau eu gwahodd i fynychu'r ganolfan addysg a'r cyfleuster adfer deunyddiau ym Mryn Pica ar 26 Tachwedd 2024. Rhoddodd yr ymweliad yma gyfle iddyn nhw gael cipolwg ar y

cyfleusterau. Fe wnaeth yr ymweliad yma eu helpu nhw i baratoi i graffu ar lefelau cyflawniad y Cyngor o ran ailgylchu.

**Mae gwaith arall yn cynnwys:**

- ***Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) Rhondda Cynon Taf***
- ***Adolygu Terfyn Cyflymder 20mya Llywodraeth Cymru***
- ***Pontio – Cerbydau'r Cyngor***
- ***Cynllun Buddsoddiad y Priffyrdd***
- ***Strategaethau Adfywio Canol Trefi a Chynlluniau Creu Lleoedd yn Rhondda Cynon Taf***
- ***Diweddariad - Y Strategaeth Datgarboneiddio a'r Cynllun Gweithredu.***
- ***Cyflawniad Rhondda Cynon Taf o ran Ailgylchu 2024/25***
- ***Sesiwn Ymgysylltu ag Aelod Cabinet***

## Meysydd i'w trafod yn 2025/26

**Mae'r Pwyllgorau Craffu'n awyddus i ddatblygu'r meysydd canlynol yn ystod Blwyddyn nesaf y Cyngor, mae'r meysydd yma'n parhau i fod yn rhan annatod o graffu da yn RhCT:**

- Parhau i gefnogi dealltwriaeth aelodau'r Pwyllgorau Craffu o feysydd craffu allweddol megis data cyflawniad a chraffu ar faterion ariannol drwy gynnal pecyn hyfforddiant pwrpasol a gwaith gwerthuso parhaus mewn perthynas â deilliannau'r gwaith craffu.
- Gwella'r cyfleoedd y mae modd i Aelodau Etholedig fanteisio arnyn nhw i ddefnyddio gwybodaeth am faterion Ariannol a Chyflawniad er mwyn llywio rhaglenni gwaith a chynnal gwaith craffu a her.
- Sicrhau bod y Pwyllgorau Craffu yn parhau i gydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac yn benderfynol wrth geisio lleihau'r anghydraddoldebau sy'n dod yn sgil anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Cynnal ein sesiynau cynllunio gwaith lefel uchel i sicrhau bod y materion rydyn ni'n eu cynnwys ym mlaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn berthnasol ac yn cyfrannu at y safonau darparu gwasanaeth rhagorol y mae'r trigolion yn eu disgwyl.
- Rhoi cyngor mewn perthynas â rôl ac ymddygiad aelodau'r Pwyllgorau Craffu mewn amgylchedd Cyngor modern, gan gynnwys sut i herio mewn modd adeiladol.
- Sicrhau bod Swyddogion y Cyngor a phartneriaid yn parhau i rannu gwybodaeth o ansawdd da yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu a hynny er mwyn sicrhau bod gan Aelodau gyfle i'w herio mewn modd effeithiol.
- Parhau i ddatblygu dulliau sy'n annog y cyhoedd a rhanddeiliaid i ymgysylltu â'r broses graffu gan ddefnyddio'r sianeli presennol megis cyhoeddi rhaglenni gwaith, agendâu pwyllgorau, darlledu holl gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu ar y we a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- Sicrhau bod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn cael eu cefnogi'n llawn yn rhan o broses Adolygu gan Gymheiriaid CLlLC, a fydd yn ceisio herio a darparu cymorth er mwyn sbarduno gwelliant.

### Y Garfan Graffu

I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys yr adroddiad yma anfonwch e-bost at: craffu@rctcbc.gov.uk

Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Julia Nicholls – Blaen Swyddog Materion Democrataidd a Chraffu

Sarah Daniel – Blaen Swyddog Materion Democrataidd a Chraffu

Tracy Watson – Uwch Swyddog Materion Democrataidd a Chraffu

Jess Daniel – Swyddog Materion Democrataidd a Chraffu

Sarah Handy – Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau